

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gellir gweld y datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
22 Tachwedd 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ('Rheoliadau 2022') yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, ym meysydd diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

Diben Rheoliadau 2022 yw:

- mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn neddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Yn benodol, dileu croesgyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE, a throsi Atodiadau penodol i'r Cyfarwyddebau hynny yn ddeddfwriaeth ddomestig.
- cywiro cyfeiriadau o fewn deddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n diffinio awdurdodau gorfodi mewn perthynas â bwyd anifeiliaid.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Rheoliadau 2022 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2018 ('Deddf 2018').

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn cynnwys darpariaeth sy'n dod o fewn paragraff 1(2)(a) a/neu (d). Mae'n creu pŵer i ddeddfu, a oedd, yn union cyn dyddiad cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (IP), yn bŵer yng nghyfarwyddeb yr UE i wneud deddfwriaeth drydyddol yr UE y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ei ddargadw.

Yn benodol, rheoliad 4(8) yw hwn sy'n mewnosod rheoliad 15A newydd yn Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Caiff yr offeryn hwn ei lunio gan ddefnyddio'r pŵer y Mharagraff 1(1) o Atodlen 2, a 21(b) o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*) i weithredu'n effeithiol, neu ddiffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Yn unol â gofynion y Ddeddf honno, mae'r Dirprwy Weinidog wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Ochr yn ochr â phwerau Deddf yr UE (Ymadael) 2018 mae'r offeryn hefyd yn cael ei wneud drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 74A(1) ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, er mwyn cywiro gwallau presennol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

Beth oedd diben unrhyw gyfraith berthnasol yr UE cyn y diwrnod ymadael?

Cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, roedd cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid gymwys yr UE yn darparu lefel uchel o amddiffyniad i ddefnyddwyr o ran hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Yn benodol, roedd cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid gymwys yr UE yn nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer cynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddiogel ac yn hylan. Roedd hefyd yn rhagnodi rheolaethau effeithiol a chymesur i'w cymhwyso gan weithredwyr busnesau bwyd a gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid drwy'r gadwyn fwyd, o gynhyrchu cynradd hyd at werthu neu gyflenwi i'r defnyddiwr terfynol. Parhaodd i fod yn gymwys heb ei newid yn ystod y Cyfnod Gweithredu.

Mae Rheoliadau 2022 yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf 2018 i ddiwygio'r ddeddfwriaeth genedlaethol (Cymru) isod, gan sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei hailddatgan mewn ffordd gliriach a mwy hygyrch.

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau sy'n Dod i Gysylltiad â Bwyd (Ymadael â'r UE) 2012

Roedd yr offeryn hwn yn gweithredu'r agweddau canlynol o Gyfarwyddebau'r UE a Rheoliadau'r UE mewn perthynas â Chymru:

- Cyfarwyddeb y Cyngor 84/500/EEC ar gyd-ddynesu (*approximation*) cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud ag eitemau cerameg y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd.
- Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau wedi'u gwneud o gaen cellwlos atgynyrchiedig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd.
- Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 sy'n darparu rheolau ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC a 89/109/EEC.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1895/2005 sy'n darparu rheolau ar gyfyngu defnydd deilliadau epocsi penodol mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2023/2006 sy'n sefydlu arferion gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 450/2009 sy'n darparu rheolau ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 10/2011 sy'n darparu rheolau ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/213 ar ddefnyddio bisphenol A mewn farneisiau a chaenau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd a diwygio Rheoliad (UE) Rhif 10/2011 o ran defnyddio'r sylwedd hwnnw mewn deunyddiau plastig â ddaw i gysylltiad â bwyd.

Mae Cyfarwydddebau a Rheoliadau'r UE, fel y'u gweithredwyd gan Reoliadau 2012, yn darparu ar gyfer amddiffyn bwyd rhag peryglon a allai ddeillio o ddeunyddiau ac eitemau y gallai ddod i gysylltiad â hwy trwy'r gadwyn fwyd.

Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

Roedd yr offeryn hwn yn gweithredu'r agweddau canlynol ar Gyfarwydddebau'r UE a Rheoliadau'r UE a ganlyn mewn perthynas â Chymru:

- Cyfarwydddeb 2009/32/EC ar gyd-ddynesu (*approximation*) cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ar doddyddion echdynnu a ddefnyddir i gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd.
- Rheoliad (EC) Rhif 2065/2003 ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwydydd neu arnynt.
- Rheoliad (EC) Rhif 1332/2008 ar ensymau bwyd.
- Rheoliad (EC) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd.
- Rheoliad (EC) 1334/2008 ar gyflasynnau a rhai cynhwysion bwyd gyda nodweddion cyflasynnau i'w defnyddio mewn bwydydd ac arnynt.

Defnyddir y sylweddau gwella bwyd a reoleiddir gan y ddeddfwriaeth hon mewn neu ar fwyd at bwrpas technolegol wrth ei gynhyrchu neu ei storio. Fe'u defnyddir hefyd i wella blas, gwedd ac ymddangosiad bwyd.

Yn gyffredinol, mae deddfwriaeth wedi'i chysoni yr UE sy'n llywodraethu'r sylweddau hyn yn gofyn am asesiad risg ac awdurdodiad cyn eu rhoi ar y farchnad. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu rhestrau o sylweddau a ganiateir, manylebau cymwys, amodau defnyddio, ynghyd â chategorïau o fwydydd y gellir eu defnyddio ynddynt. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu gofynion labelu penodol ar gyfer rhai cynhyrchion bwyd a werthir i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys rhybudd gorfodol ar gynhyrchion sy'n cynnwys aspartame gan

ei fod yn ffynhonnell o ffenylalanin, a allai fod yn niweidiol i'r rhai sy'n dioddef o Phenylketonuria.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

Roedd yr offeryn hwn yn gweithredu'r agweddau canlynol ar Gyfarwyddbau'r UE a Rheoliadau'r UE a ganlyn mewn perthynas â Chymru:

- Cyfarwyddeb y Comisiwn 82/475/EEC sy'n gosod y categorïau o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid y caniateir eu defnyddio at ddibenion labelu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer anifeiliaid anwes.
- Cyfarwyddeb 2002/32/EC ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid.
- Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, sy'n sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd.
- Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig.
- Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid.
- Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnyddiau arfaethedig ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol neilltuol

Roedd Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 yn darparu ar gyfer parhau i orfodi neu weithredu Rheoliadau a Chyfarwyddbau'r UE ar ddiogelwch bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid wedi'i addasu'n enetig (GM), ychwanegion bwyd, marchnata a defnyddio bwyd anifeiliaid, sylweddau annymunol (halogion) mewn bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol neilltuol.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016

Roedd offeryn hwn yn gweithredu agweddau o Rheoliadau canlynol yr UE mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid.

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid.
- Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio.
- Rheoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n llywodraethu mynediad rhai nwyddau i'r Undeb o drydydd gwledydd penodol.

Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016 yn darparu ar gyfer parhau i weithredu a gorfodi Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE ar hylendid bwyd anifeiliaid, dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid, er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid yn cael ei dilysu.

Pam ei fod yn cael ei newid?

Bydd y prif newidiadau a gyflwynwyd gan Reoliadau 2022 yn sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei hailddatgan mewn ffordd gliriach a mwy hygyrch mewn perthynas â Chymru.

Beth fydd y Rheoliadau yn ei gyflawni nawr?

Yn benodol, mae'r diwygiadau'n dileu croesgyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE ac yn trosi Atodiadau penodol i'r Cyfarwyddebau hynny, sydd wedi'u hymgorffori ar hyn o bryd drwy groesgyfeirio fel yr oeddent yn dod i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (11pm, 31 Rhagfyr 2020), fel Atodlenni newydd i'r offerynnau dan sylw. Bydd Rheoliadau 2022 yn gwneud y newidiadau nodedig canlynol:

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau sy'n Dod i Gysylltiad â Bwyd (Ymadael â'r UE) 2012

Mae Atodiad 2 o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau sydd wedi'u gwneud o gaen cellwlos atgynrychiedig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd (OJ L 172, 30.6.2007, t. 71–82) wedi'i drosi i Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau sy'n Dod i Gysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 fel Atodlen 6 newydd i'r Rheoliadau hynny.

Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ar doddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd (OJ L 141, 6.6.2009, t. 3–11) wedi'i throsi i Reoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu (Cymru) 2013 fel Atodlen 4A newydd i'r Rheoliadau hynny.

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

Mae Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 82/475/EEC sy'n gosod y categorïau o gynhwysion y caniateir eu defnyddio at ddibenion labelu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer anifeiliaid anwes (OJ L 213, 21.7.1982, t. 27–28) wedi'i drosi i'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 fel Atodlen 1A newydd i'r Rheoliadau hynny, ac mae Atodiadau 1 a 2 i Gyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid (OJ L 140, 30.5.2002, t. 10–22) wedi'u trosi i'r Rheoliadau hynny fel Atodlenni 1B ac 1C newydd.

Dargedwir pwerau gwneud deddfwriaeth trydyddol Comisiwn yr UE yn Erthyglau 7 ac 8 o Gyfarwyddeb 2002/32/EC i ddiwygio'r rhestrau o sylweddau annymunol yn Atodiadau 1 a 2 o'r Gyfarwyddeb honno, ac i ddiffinio meini prawf derbynioldeb ar gyfer prosesau dadwenwyno. Mae rheoliad 4(8) o Reoliadau 2022 yn mewnosod Rheoliad 15A newydd yn Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016, sy'n rhoi pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, sy'n arferadwy mewn perthynas â Chymru.

Bydd unrhyw groesgyfeiriadau o fewn Offerynnau Statudol at Gyfarwyddebau'r UE yn cael eu disodli gan gyfeiriad at yr Atodlen(ni) newydd perthnasol. Bydd copïo'r rhestrau o'r Gyfarwyddebau hynny i'r Offerynnau Statudol (yn hytrach nag ymgorffori trwy groesgyfeirio) yn hwyluso diwygiadau i'r rhestrau hynny yn y dyfodol. Bydd yn sicrhau eglurder a hygyrchedd drwy wneud yn siŵr mai dim ond trwy gyfeirio at y ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol y gellir cael mynediad at y rhestr gyfredol sy'n gymwys yng Nghymru.

5. Ymgynghoriad

Cynhaliodd yr ASB yng Nghymru ymgynghoriad pedair wythnos rhwng 4 Awst 2022 a 1 Medi 2022 ar “newidiadau arfaethedig i gyfraith Cymru mewn perthynas â Chyfarwyddebau'r UE ar fwyd anifeiliaid, deunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd a thoddyddion echdynnu”.

Diben yr ymgynghoriad hwn oedd rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar gynigion yr ASB i gywiro diffygion ac i wneud atebion technegol i ddeddfwriaeth genedlaethol (Cymru yn unig).

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan yr ASB, sianeli cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost a anfonwyd at Swyddogion Gorfodi Cyfraith Bwyd awdurdodau lleol a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol.

Mae copi o'r ymgynghoriad ar gael yma:

<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/ymgyngoriad-ar-newidiadau-arfaethedig-i-gyfraith-genedlaethol-cymru-yn-unig-mewn-perthynas-a-chyfarwyddebaur-undeb-ewropeaidd>

Cafodd yr ymgynghoriad ddau ymateb gan bartïon â diddordeb, gyda phob un yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan yr ASB.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan na ragwelir unrhyw effaith sylweddol ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.

Yn ogystal, ar ôl adolygu'r canllawiau ar gyfer cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae un neu'r ddau o'r amodau eithrio canlynol yn berthnasol i'r Rheoliadau:

- Lle mae angen diwygiadau technegol i newid geiriad y gyfraith yn hytrach na'i diben neu effaith.
- Lle mae diwygiadau ffeithiol yn cael eu gwneud i ddiweddarau is-ddeddfwriaeth ac nad ydynt yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y'i cymhwysir mewn sefyllfa benodol.

Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) na phartneriaid statudol (adrannau 72-75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Atodiad 1

Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i'w darparu hefyd pan fo angen. Gellir gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Ym mha le y nodir y gofyniad	I bwy y mae'n gymwys	Yr hyn sy'n ofynnol ganddo
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7 Rheol Sefydlog 27.1A	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud Offeryn Statudol Negyddol Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i wneud yr un datganiad	Datganiad i egluro pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJC) (fel pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a	Datganiad i egluro'r rhesymau da dros lunio'r offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn ffordd resymol o weithredu.

		23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	
Cydraddoldebau	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymadau neu ddirymadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010, ac i ddeddfwriaeth a luniwyd oddi tanynt. Datganiad yn nodi bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am bwrpas yr offeryn, er enghraifft p'un a fwriedir gwneud mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm wrthi.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	Yn gymwys i Weinidogion y Goron	Datganiad i egluro pam ei bod yn briodol creu pŵer is-

		<p>sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer</p>	ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond gan ddefnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad yn nodi bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen llunio'r Offeryn Statudol gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno.

Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf 2018 yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

1. Datganiad(au) sifftio

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

2. Datganiad priodoldeb

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynn Neagle, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i nid yw Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol".

Mae hyn yn wir oherwydd bod yr Offeryn yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

3. Rhesymau da

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynn Neagle, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod nhw'n ffordd resymol o weithredu".

Mae'r rhain er mwyn sicrhau bod Rheoliadau cenedlaethol yn weithredol ac yn dileu'r elfennau anweithredol sy'n weddill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

4. Cydraddoldebau

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynn Neagle, wedi gwneud y datganiad(au) canlynol:

"Nid yw'r offeryn drafft yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Lynn Neagle, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r offeryn [drafft], rydw i, Lynne Neagle, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010”.

5. Esboniadau

Gwnaed y datganiad esboniadau ym mharagraff 4 (Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth) prif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

6. Troseddau

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

8. Brys

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.